Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 476 GORFFENNAF 2025 | AM DDIM

## DAU O DREFORYS YN ENNILL TLWS JOHN A CERIDWEN HUGHES, UWCHALED 2025

-BRANWEN RHYS DAFYDD

Mae'r Urdd yn falch o gyhoeddi mai David Gwyn a Pamela John o Dreforys, Abertawe yw enillwyr Tlws John a Ceridwen Hughes, Uwchaled, Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr 2025.

Yn cael eu hadnabod fel hoelion wyth y gymuned leol, mae'r pâr priod wedi ymroi yn ddiflino dros y degawdau i hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymreig ymhlith plant a phobl ifanc yr ardal. Mae Tlws John a Ceridwen Hughes, Uwchaled yn gwobrwyo gwirfoddolwyr arbennig sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i fywyd ieuenctid Cymru, ac wrth ystyried cyfraniad David a Pamela, does dim syndod mai nhw yw'r enillwyr eleni.

Pan sefydlwyd Aelwyd yr Urdd Treforys yn Festri Capel y Tabernacl yn yr 1960au cynnar, roedd cyfle i bobl ifanc yr ardal ddod at ei gilydd yn lleol i gymdeithasu drwy'r Gymraeg am y tro cyntaf erioed. Roedd y lle yn llawn bwrlwm a brwdfrydedd, ac o dan arweiniad David a Pamela bu'r aelwyd yn weithgar wrth gystadlu mewn Eisteddfodau'r Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol yn ogystal â'r Ŵyl Gerdd Dant, ac yn cyflwyno Nosweithiau Llawen ar draws y de.

Y gyflwynwraig Heledd Cynwal gafodd y fraint o gyhoeddi'r newyddion yng Nghapel y Tabernacl, Treforys.

**Helpu pobl ifanc y fro i "ddarganfod eu Cymreictod"**

Ymhlith dros 100 o aelodau Aelwyd yr Urdd Treforys fyddai'n cyfarfod bob nos Wener oedd y cerddor a'r cyfansoddwr Geraint Davies (Mynediad am Ddim) a'r diweddar Dewi Pws, a nododd mewn un cyfweliad iddo "ddarganfod ei Gymreictod" yn bymtheg oed yn Aelwyd yr Urdd yng Nghapel Treforys.




**Meddai'r cerddor Geraint Davies (a chyfansoddwr 'Hei Mistar Urdd')**: "Ro'n i'n bymtheg oed yn ymuno ag Aelwyd Treforys ym 1968 a does dim dwywaith i hynny newid fy mywyd i. David Gwyn a Pam John oedd wrth y llyw bryd hynny, cyn hynny ac am flynydde lawer wedi hynny gan greu corau, partïon dawnsio gwerin a chriwie Noson Lawen ymhlith y gore yng Nghymru, a hynny o ddeunydd crai digon anystywallt.

"Roedd drws agored i Gymry Cymraeg a di-Gymraeg fel ei gilydd mewn cyfnod lle'r oedd addysg uwchradd yn Abertawe yn hollol Seisnig. Dyma'r antidôt – trochfa o Gymreictod bob nos Wener ac ambell Sadwrn. Y bonws mawr oedd bod David yn meddu ar drwydded gyrru bws, alluogodd ni i deithio'n gyson at aelwydydd eraill, digwyddiadau cenedlaethol a mor bell â'r Alban ym 1970. Ehangu gorwelion. Ffindes i gymar oes yn yr Aelwyd honno, hefyd, a rwy'n un o nifer.

"Maen nhw dal wrthi flynyddoedd yn ddiweddarach – yn cynnal gweithgarwch Cymdeithas Gymraeg Treforys. Diolch a llongyfarchiadau David a Pam!"

Cyn ymddeol, roedd y ddau yn gweithio yn y byd addysg ac wrth eu boddau yn cefnogi a hybu ieuenctid y fro. Roedd David yn Bennaeth yn Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las a Pamela yn athrawes yno. Bu'r ddau hefyd yn weithgar ar amrywiol bwyllgorau lleol, is bwyllgorau Eisteddfodol ac wrth godi arian yn lleol. Bu iddynt ddathlu eu Priodas Ddiemwnt haf diwethaf.

Meddai Llio Maddocks, Cyfarwyddwr y Celfyddydau, Urdd Gobaith Cymru: "Dyma ddau hoffus a phoblogaidd sydd wedi cyfrannu gymaint at Gymreictod ardal yr Eisteddfod eleni, sy'n llawn haeddu Tlws John a Ceridwen Hughes, Uwchaled 2025. Mae angen gwirfoddolwyr ac unigolion fel David a Pamela yn ein hardaloedd, sy'n hapus i roi o'u hamser prin i gefnogi ein hieuenctid. Mae eu cyfraniad yn amhrisiadwy ac rydym ni'n ddiolchgar am eu gwaith diflino dros y degawdau."




Tocynnau ar gael o
www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe

## TAITH AL LEWIS

**-DAFYDD WILLIAMS**

Daeth y canwr â'r cyfansoddwr Al Lewis i Abertawe yn ystod ei daith gerddorol drwy Gymru ar y rheilffordd diolch i Drafnidiaeth Cymru.

Cafodd Al gwmni'r cerddor hynod dalentog Patrick Grimes wrth berfformio amrywiaeth o ganeuon yn Oriel Mission i gynulleidfa werthfawrogol dros ben.

Mae'r daith yn cynnwys pedwar ar ddeg o lefydd o Fôn i Fynwy yn ystod Mis Mai gan rannu'r llwyfan gydag aristiaid eraill a theithio iddyn nhw ar y trên. Yn ôl Al Lewis, "fe gei di deithio o gwmpas Cymru, ac esgus ei fod e'n job!"




## BYD NATUR MIS GORFFENNAF

**-PATRICK SOPER**

Mae'r ymadrodd 'hesgen' yn cael ei ddefnyddio yn aml wrth gyfeirio at lawer o laswelltau a phlanhigion sy'n eithaf tebyg megis brwyn.

Brodorol i lawer o ardaloedd Ewrop - gan gynnwys ni ein hunain a thu hwnt - yw'r hesgen bendrom.



Mae'n hoff iawn o briddoedd gwlyb a thrwm, a gellir cael hyd iddo yn ymyl nentydd, ayb.

Mae hadau bach brown y planhigyn hwn yn fwytadwy, naill drwy eu hychwanegu wrth wneud bara neu fewn saladau; ac mae modd hefyd i'w malu i gynhyrchu blawd.

Am ran o'u hyd mae'r coesau yn dair-ochrog yn hytrach na thiwbaidd - dyma un o nodweddion hesg, yn ein cynorthwyo i'w gwahaniaethu rhwng hesg a glaswelltau (gyda'u coesau tiwbaidd gweigion) a brwyn (gyda'u coesau tiwbaidd solet). Gall dail yr hesgen bendrom gael eu sychu a'u plethu i'w wneud matiau.



Plu'r gweunydd yw hesgen arall, lluosflwydd brodorol o rostir agored. Pob gwanwyn bydd y planhigyn hwn yn tyfu coes ychydig o fodfeddi o uchder a fydd yn cynhyrchu blodyn rhwng mis Ebrill a mis Mai.Wedi cael ei ffrwythloni mae gwlaniach gwyn yn ymddangos er mwyn gwarchod yr hadau.

Câi'r gwlaniach hwn ei ddefnyddio yn bell yn ôl fel wigiau canhwyllau ac, yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, ar gyfer rhwymo clwyfau os nad oedd unrhyw beth mwy addas ar gael.

Mae'r llun yn arddangos un bluen y gweunydd ym mhlith llawer oedd yn tyfu ar lethrau gweundirol yn arwain at gopa Pen y Ghent ('Pen y Gwynt' yn wreiddiol) yn Nyffrynnoedd Swydd Efrog.



Roedd y pedwar cyw gwennol newynog fach hyn yn brin o le. Ond roedden nhw yn ddiogel ac yn gynnes a sych yn y nyth a adeiladwyd gan eu rhieni yn apig to porth yr hen eglwys hon.

Dyma oedd diwrnod braf a heulog ym mis Gorffennaf. Roedd pobl yn mynd a dod, ond nid oedd gan y cywion hyn unrhyw ofn pobl.

Mae gwenoliaid yn ymweld â ni ym mis Ebrill er mwyn mwynhau ein haf, a bydd y rhan fwyaf ohonyn nhw wedi mynd yn ôl i Affrica erbyn diwedd mis Medi. Maent yn adeiladu eu nythod gyda llaid a gwellt, a gallan nhw gynhyrchu dwy neu dair nythaid mewn tymor - hyd at 15 cyw.

## CYMDEITHAS GYMRAEG LLANDEILO FERWALLT

-ROB EVANS

Roedd y diwrnod wedi dechrau yn heulog a, chwarae teg, cytunodd y cymylau i gadw draw a pha syniad sydd yn tyfu yn ein pennau wrth i ddydd heulog symud ymlaen? Tynnu'r hen farbeciw allan unwaith eto a chael noson i ymlacio'n llwyr efo gwydriad o win i fynd efo beth bynnag sydd yn sizzlan ar y tân wrth gwrs.

Ond nid y darlun yma oedd ym mhennau 29 o aelodau Cymdeithas Cymraeg Llandeilo Ferwallt, roedd ganddyn nhw rywbeth llawer gwell o'u blaenau nhw. Roedden nhw'n edrych ymlaen at gyfarfod olaf y flwyddyn. Blwyddyn sydd wedi bod yn llwyddiannus dros ben o ran tyfu'r aelodaeth ac o ran safon y rhaglen. Dydy'r cyfnod ers Cofid ddim wedi bod yn hawdd i'n cymdeithasau, anodd iawn yw ail-ddechrau ar ôl sbel mor hir yn gaeth yn ein tai. Mae'r siwrne wedi gofyn am frwdfrydedd a dyfalbarhad o'r faint uchaf ac mae pwyllgor y Gymdeithas wedi llwyddo.

Am yr ail dro Côr Tŷ Tawe oedd yn darparu'r adloniant a dechreuon nhw efo'r gân 'Ffalambalam', cân draddodiadol gyda threfniant W. Tudor Jones. Roedd 'Tangnefeddwyr', gwaith Waldo Williams ac Eric Jones yn ein hargyhoeddi, os oedd rhaid, bod pethau yn ein byd ddim wedi gwella mewn bron canrif. Ble mae'r tangnefeddwyr tybed? Roedd amrywiaeth o ganeuon a phob un yn bleser pur i'r clust.



Ond roedd tristwch hefyd wrth i ni glywed bod arweinydd y côr, Bethan Wynne Phillips yn gadael am borfeydd newydd. Dyn ni'n gwybod bod y côr yn gwerthfawrogi'r gwaith caled mae hi wedi gwneud yn y cyfnod byr ac mi oedd safon y canu ar y noson yn cadarnhau y ffaith i ni yn y gynulleidfa. Dyn ni i gyd yn dymuno bob llwyddiant iddi yn y dyfodol. Diolch yn fawr iawn am eich ymdrechion Bethan!

Yn ystod yr egwyl darllenodd Catrin Alun gerdd Gerallt Lloyd Owen 'Etifeddiaeth'. Mae'r gerdd yn werth ei fframio a'i hongian ar ein waliau er mwyn ein hatgoffa o'n cyfrifoldeb. Yn anffodus mae llyfr Gerallt, 'Cerddi'r Cywilydd', allan o brint ac nad ydw i wedi gweld copi ar y we.

Daeth gwaith y Côr i ben gyda phawb yn canu Hen Wlad fy Nhadau mewn balchder.

Roedd lluniaeth ar gael diolch i ddanteithion o safon oddi wrth Jamie o Gaffi'r Tri Chlogwyn a phaneidiau ar gael, diolch i'r merched yn y gegin sydd wedi edrych ar ein holau ni trwy gydol y flwyddyn - dach chi werth y byd! Roedd y noson mor hyfryd roedd cyfle i ni dreulio amser tu allan yn dal i fyny efo hen ffrindiau a chyfarfod rhai newydd. Roedd naw o bobl yn ddigon lwcus i ennill gwobrau defnyddiol dros ben yn y raffl!

Cael barbeciw yn wir!

Wrth wneud y sỳms, 29 o aelodau'r Gymdeithas ac 21 o aelodau'r côr mae hynny'n golygu bod 50, hanner cant o Gymry a dysgwyr yn rhannu'r noson ac yn mwynhau. Heb waith caled y pwyllgor ers diwedd Cofid na fydden ni wedi gallu gwneud hyn. Felly clod mawr a diolch yn fawr iddyn nhw bob un!

Mi fyddai'r Gymdeithas yn ail-ddechrau ym mis Hydref ac os ydych chi eisiau bod ar y rhestr i gael newyddion am y rhaglen nes ymlaen cysylltwch â Martin Jones; martin.jones51@btinternet.com

## NEWYDDION YSGOL GYFUN GŴYR

### ATHRAWES, YSBRYDOLIAETH, PENCAMPWRAIG!

Llongyfarchiadau enfawr i Miss Bethan Jones, athrawes yn yr Adran Fathemateg, a ddaeth yn drydydd ym Mhencampwriaeth Duathlon y Byd dros y penwythnos yn Pontevedra, Sbaen – gan orffen mewn 1 awr, 11 munud ac 8 eiliad!

Gan gyfuno rhedeg a beicio dros bellteroedd heriol, llwyddodd Miss Jones i sicrhau lle ar y podiwm byd-eang mewn cystadleuaeth sy'n denu'r athletwyr gorau o bedwar ban byd. Ei dyfalbarhad, disgyblaeth a phenderfyniad yw'r hyn sy'n gwneud y gamp hon mor ryfeddol.

Rydym yn hynod falch ohoni – ac yn llawn edmygedd o'i llwyddiant anhygoel ar lwyfan rhyngwladol.



## SEREN RYGBI Y DYFODOL!

Llongyfarchiadau MAWR i Lewis Edwards, Blwyddyn 13 Ysgol Gyfun Gŵyr!

Mae gennym newyddion gwych i'w rannu – mae Lewis wedi'i ddewis i ymuno â sgwad Cymru dan 20 ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd! Mae hwn yn gamp eithriadol, ac yn brawf o'i waith caled, ymroddiad a thalent arbennig ar y cae rygbi.

Mae'r ysgol gyfan yn browd iawn ohono, ac rydym yn edrych ymlaen at weld beth fydd y cam nesaf yn ei daith rygbi. Byddwn yn cefnogi pob cam o'r ffordd, Lewis – dal ati a mwynha'r profiad anhygoel hwn!



## Y SGWRS FAWR

Da iawn i ddisgyblion Blwyddyn 8 a 9 o Ysgol Gyfun Gŵyr a fynychodd "Y Sgwrs Fawr" gan Gyngor Abertawe ddoe yn Amgueddfa'r Glannau, Abertawe. Roedd y digwyddiad yn gyfle arbennig i leisiau pobl ifanc gael eu clywed – yn unol ag Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Y prif ffocws eleni oedd Gwrth-Hiliaeth – sef creu cymdeithas decach, fwy cyfartal lle mae pob unigolyn yn cael ei drin ag urddas a pharch, waeth beth fo'u hil neu gefndir. Mae hyn yn cyd-fynd yn berffaith â pholisi Llywodraeth Cymru ar fod yn genedl sy'n gweithredu'n weithredol yn erbyn hiliaeth erbyn 2030.

Llongyfarchiadau i'n pobl ifanc ysbrydoledig – chi yw dyfodol Cymru!



## CYSTADLEUAETH CLASURON MAWREDDOG PRIFYSGOL RHYDYCHEN

Llongyfarchiadau enfawr i'n disgyblion Blwyddyn 9!

Maen nhw wedi ennill cystadleuaeth Clasuron mawreddog Prifysgol Rhydychen, a drefnwyd gan Rwydwaith Seren! Cafodd y disgyblion y cyfle i ymweld â Phrifysgol Rhydychen a'r Amgueddfa Ashmolean, gan ddarganfod byd hynafol y Groegiaid a'r Rhufeiniaid.

Eu tasg? Dylunio stribed comig yn seiliedig ar chwedl hynafol Athena – ac roedd eu gwaith 3D yn rhagori! Rydym yn falch iawn ohonoch – dyma dystiolaeth o'ch creadigrwydd a'ch angerdd dros y Clasuron!



## COGINIO'N FYW GYDA JAMIE OLIVER - YMGAIS I DORRI RECORD BYD

Yn ddiweddar, cymerodd disgyblion Blwyddyn 10 Ysgol Gyfun Gŵyr ran mewn profiad arbennig iawn – Ymgais Cookalong Jamie Oliver i dorri Record y Byd!
Gan goginio'n fyw gyda miloedd o bobl ledled y DU, fe wnaeth y dosbarth baratoi pasta ffres a saws tomato blasus o'r newydd. Roedd yr awyrgylch yn llawn egni, sŵn berwi a brwdfrydedd!
Roedd Mr Henry a Miss Green yn hynod falch o'u hymdrechion – ac i goroni'r cyfan, cafodd Ysgol Gyfun Gŵyr hyd yn oed gyfeiriad arbennig ar y ffrydiau byw! Mae Mr Henry yn dal ei fysedd ar groes i weld a fydd y record yn cael ei thorri – ond beth bynnag, mae Blwyddyn 10 wedi gwneud Cymru'n falch heddiw!
Da iawn chi – sêr y gegin!



## TÎM NEWYDD Y CHWECHED DOSBARTH 2025-26

Llongyfarchiadau mawr i'n Prif Ddisgyblion newydd a'r Uwch-Swyddogion sydd wedi cael eu penodi i arwain y Chweched Dosbarth dros y flwyddyn nesaf!
Rydym yn falch iawn o'u cyflwyno fel tîm egnïol, brwdfrydig ac ymroddedig a fydd yn cynrychioli'r ysgol, cefnogi digwyddiadau ac ysbrydoli eraill drwy gydol y flwyddyn. Maent eisoes wedi dangos arweinyddiaeth a balchder yn eu rôl – ac edrychwn ymlaen at weld eu syniadau'n dod yn fyw dros y misoedd nesaf.
Pob hwyl a phob llwyddiant iddynt – rydym yn gyffrous i weld beth fyddan nhw'n cyflawni dros y flwyddyn sydd i ddod!





## 60 MLYNEDD O GANU – A'R DYFODOL YN SWNIO'N WYCH!

Ar nos Wener 20fed o Fehefin, perfformiodd Côr Merched Iau yr ysgol, dan arweiniad Miss Carwen George, yn Eglwys Santes Catrin, Gorseinon fel rhan o ddathliadau 60 mlynedd Côr Waunarlwydd – carreg filltir bwysig ym myd cerddoriaeth gorawl Cymru.

Roedd y perfformiad nid yn unig yn brydferth – ond hefyd yn deyrnged bwerus i chwe degawd o gerddoriaeth, cymuned ac angerdd. Roedd y disgyblion yn llawn hyder, egni ac emosiwn – ac yn haeddu pob canmoliaeth.





# NEWYDDION YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

## CWIS LLYFRAU

-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Aeth tîm o fl.7,8 a 9 Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe i'r Cwis Llyfrau a gynhaliwyd eleni yn Ysgol Ystalyfera. Yn cymryd rhan oedd Bryn Tawe, Ystalyfera a Bro Dur. Gwelon ni eisiau gwmni Ysgol Gŵyr oedd yn cynnal ei mabolgampau heddiw. Llongyfarchiadau i dîm Cwis Llyfrau Bl.7 a 8 Bryn Tawe am ddod yn fuddugol a diolch yn fawr i Ysgol Ystalyfera am y croeso cynnes ac i Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe am feirniadu





## DARLLEN GYDA'R YSGOLION CYNRADD

-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Cafodd disgyblion blwyddyn 7 Bryn Tawe gyfle i fynd i'n hysgolion cynradd i ddarllen llyfrau am chwedlau a grëwyd ganddyn nhw mewn gwersi Cymraeg yn ddiweddar. Diolch yn fawr i Ysgol Tirdeunaw, Gellionnen, Tan-y-Lan a'r Cwm am eu croeso cynnes!





## MERCHED BRYN TAWE'N ENNILL

Llongyfarchiadau enfawr i ferched blwyddyn 7 ac 8, Ysgol Bryn Tawe, am eu buddugoliaeth ysgubol yn erbyn Llandeilo Ferwallt, yn rownd derfynol cwpan pêl-droed Abertawe



# NEWYDDION MENTER IAITH ABERTAWE










Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Gorffennaf. Menter Iaith Abertawe sydd yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Awst erbyn Gorffennaf 28ain trwy ebostio Anys at:

**datblygu@menterabertawe.org**

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

CYMRAEG Dysgu Learn
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

# HAF O HWYL ABERTAWE 2025

**CYNLLLUNIAU CHWARAE**
**10:00–12:00**
**21–24/7**

**24/7**
**YSGOL ROC MEI GWYNEDD**
**10:00–14:00**

**PLANTAWE**
**13:00–15:30**
**25/7**

**30/7**
**GWEITHDAI ORIELODL**
**10:00–11:00 / 11:30–12:30**

**GWEITHDY CASI WYN**
**11:00 – 12:00**
**31/7**

**6/8**
**DIWRNOD CHWARAE CENEDLAETHOL**
**10:00–14:00**

menter iaith abertawe

Cyngor Abertawe Swansea Council

MENTERABERTAWE.ORG